

PWYLLGOR CYNLLUNIO
DYDD MERCHER, 15 RHAGFYR 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, a Veronica Gay

YN BRESENNOL:

Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Cyfreithiwr - Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

38. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

39. SYLWADAU HWYR

Ni chafwyd unrhyw sylwadau hwyr.

40. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Gladys Healey a Mike Peers eu cynnig a'u heilio.

PENDERFYNWYD:

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

41. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

42. MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

43. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod nid oedd yr un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm, a gorffennodd am 3.08pm)

.....
Cadeirydd

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gweld drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu yn: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 15 RHAGFYR 2021

EITEM RHIF	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE/CAIS	ARSYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL	PENDERFYNWYD
063331	Cyngor Cymuned Penarlâg	Cais Llawn - estyniad ffrynt un llawr bwriedig a throsi garej i ffurfio llety anecs yn 1 Herriot Grove, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint.	Cafodd datganiad yn erbyn y cais ei ddarllen yn ystod y cyfarfod ar ran Mr P Hewins, preswlydd lleol.	Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.
061271	Cyngor Cymuned yr Hôb	Cais llawn – newid defnydd tir er mwyn ehangu'r safle presennol i ddarparu hyd at 6 o leiniau sipsiwn a theithwyr yn Safle Carafanau White Acres, Gwern Lane, Yr Hôb, Sir y Fflint LL12 9RU.	Cafodd datganiad yn erbyn y cais ei ddarllen yn ystod y cyfarfod ar ran Mrs T Edwards, preswlydd lleol. Cafodd datganiad yn erbyn y cais ei ddarllen yn ystod y cyfarfod ar ran Cyngor Cymuned yr Hôb.	Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.
062898	Cyngor Cymuned Sealand	Cais ar gyfer cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ynghlwm i'r caniatâd cynllunio 061125 ar gyfer cam 2 a 3 datblygiad preswyl yng Ngwersyll RAF Sealand South, Welsh Road, Sealand.	Roedd Ms Imogen Zulver, yr Asiant yn siarad o blaid y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.

